# Trugaredd

Heb. 4:14-16

Geiriau: Cass Meurig
Tôn: Deio Bach (tradd)




Pan mae bywyd yn dy brofi
Dal dy afael yn dy ffydd.
Wedi ei demtio oedd yr Iesu
Ym mhob peth, 'run modd â ni.
Felly, gawn ni gyda hyder
Nesu at orsedd gras y Tad
Er mwyn derbyn ei drugaredd
A chael cymorth gras yn rhad.